

SL(6)003 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021

Cafodd y nodyn hwn ei baratoi er mwyn rhoi gwybodaeth i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn ar 26 Mai 2021.

Cefndir a Diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau –

- yn darparu bod Cymru gyfan yn symud o Lefel Rhybudd 3 i Lefel Rhybudd 2, gan olygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau yn cymryd effaith;
- yn diwygio Atodlen 2 i newid y rheol ar ymgynnull gydag eraill yn unrhyw le ac eithrio yng nghartrefi pobl neu mewn llety gwyliau neu lety teithio, fel y caiff 6 o bobl o aelwydydd gwahanol gyfarfod (yn hytrach na 4);
- yn darparu y bydd y prif Reoliadau yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 27 Awst 2021 (yn hytrach na 28 Mai 2021);
- yn datgymhwyso'r cyfyngiad ar ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin heb esgus rhesymol ac ar gyflwyno ffurflen datganiad teithio rhyngwladol os gwneir hynny;
- yn llacio'r rheolau ar wasanaeth mewn sinemâu, meysydd chwaraeon a theatrau fel mai dim ond wrth fwyta neu yfed y mae rhaid i gwsmeriaid fod yn eistedd (ac nid wrth archebu bwyd neu ddiod neu wrth weini bwyd neu ddiod iddynt);
- yn ei gwneud yn glir, at ddibenion y prif Reoliadau, fod "gweithgaredd wedi ei drefnu" yn "cynulliad" drwy ei ailenwi'n "cynulliad rheoleiddiedig";
- yn diwygio'r ddarpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi digwyddiadau penodol fel y cânt awdurdodi digwyddiadau y caiff unrhyw nifer o bobl fod yn bresennol ynddynt (gan gynnwys nifer a ganiateir eisoes) ac y cânt addasu'r gofynion i gymryd mesurau rhesymol i leihau lledaeniad y coronafeirws a fyddai fel arall yn gymwys yn unol â rheoliadau 16, 17 a 17A;
- yn ei gwneud yn glir nad yw'r eithriad i'r gwaharddiad ar ddigwyddiadau graddfa fawr sy'n gymwys i arddangosiad ffilm, perfformiad theatraidd, marchnad a gwasanaeth crefyddol yn cael effaith ond pan fo'n digwydd mewn mangre a ddefnyddir fel arfer at



y dibenion hynny neu yn yr awyr agored (ond, ar Lefelau Rhybudd 3 a 4, nid yw'r newid hwn ond yn gymwys i farchnadoedd a gwasanaethau crefyddol).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 235)) i newid eu dyddiad dod i ben i 27 Awst 2021.

Gweithdrefnau

Gwneud Cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Pwyntiau i'w nodi

1. Yn rheoliad 2(11), mae'r diwygiadau fel y'u drafftiiwyd yn y testun Cymraeg yn diwygio rheoliad 55 o'r Prif Reoliadau, ac nid rheoliad 57, sef y rheoliad sy'n destun diwygiadau yn y testun Saesneg. Y testun Saesneg sydd yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi nodi'r gwall hwn, a bod yr Archifau Cenedlaethol wedi cael gwybod. Dywedodd hefyd y bydd yr Archifau Cenedlaethol yn cyhoeddi slip cywiro mewn perthynas â'r testun Cymraeg i unioni'r gwall hwn.

2. Yn rheoliad 2(13)(v)(aa), dylai'r testun Saesneg sy'n disodli "an outdoor organised activity" gyfeirio at "wholly or mainly outdoors", ac nid at "wholly or mainly indoors", fel sydd wedi'i nodi. Mae'r testun Cymraeg yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi nodi'r gwall hwn, a bod yr Archifau Cenedlaethol wedi cael gwybod. Dywedodd hefyd y bydd yr Archifau Cenedlaethol yn cyhoeddi slip cywiro mewn perthynas â'r testun Saesneg i unioni'r gwall hwn.

3. Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a



gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny."

4. Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Cynghorwyr Cyfreithiol
20 Mai 2021

